

## Hysbysiad Preifatrwydd NVR

### Beth yw nod y Gofrestr Fasgwlaidd Genedlaethol?

Sefydlwyd y Gofrestr Fasgwlaidd Genedlaethol (NVR) yn 2013 i fesur ansawdd a chanlyniadau gofal i gleifion sy'n cael triniaethau fasgwlaidd mawr yn ysbytai'r GIG, ac i gefnogi gwasanaethau fasgwlaidd i wella ansawdd gofal i'r cleifion hyn trwy gyhoeddi gwybodaeth feincnod o ansawdd uchel. Mae'r NVR yn rhan o'r Rhaglen Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol a Chanlyniadau Cleifion (NCAPOP) ac fe'i comisiynir gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP). Mae gwasanaethau fasgwlaidd mewn ysbytai yn trin cleifion â chyflyrau sy'n effeithio ar gylchrediad gwaed, ac sy'n rhan o'r sbectrwm eang o glefyd cardiofasgwlaidd. Mae'r triniaethau ar gyfer y cyflyrau hyn fel arfer wedi'u hanelu at leihau'r risg o ddigwyddiadau cardiofasgwlaidd fel trawiad ar y galon, strôc neu rwygo rhydveli.

### O ble mae data cleifion yn cael ei gasglu?

Mae'r NVR yn casglu data am gleifion sy'n oedolion sy'n cael triniaethau brys a dewisol yn ysbytai'r GIG ar gyfer y grwpiau cleifion canlynol:

1. cleifion sy'n cael triniaeth endarterectomi carotid neu stent carotid
2. cleifion sy'n cael triniaeth ar gyfer ymlediad aortaidd yn yr abdomen (AAA) - agored ac endofasgwlaidd (EVAR)
3. cleifion â chlefyd rhydveli ymylol (PAD) sy'n cael naill ai (a) angioplasti / stent yn y goes, (b) llawdriniaeth ddargyfeiriol yn y goes neu (c) dorri coes neu ran o'r goes i ffwrdd.

### Rheolwr y Data

Comisiynir yr NVR gan y [Partneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd](#) (HQIP) fel rhan o'r Rhaglen Archwilio Clinigol Genedlaethol ar ran GIG Lloegr a Llywodraeth Cymru.

HQIP sy'n rheoli'r data ar gyfer y data cleifion a gyflwynir i'r archwiliad yn uniongyrchol gan ysbytai'r GIG. Mae'r tîm NVR yn cyfuno'r data ar unigolion â gwybodaeth arall a gedwir mewn cronfeydd data ysbytai cenedlaethol eraill. Y rheolwyr data ar gyfer y setiau data cenedlaethol eraill hyn yw:

- NHS Digital ar gyfer data ysbytai Lloegr (*Hospital Episode Statistics*)
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer y gofrestr marwolaeth

### Sail gyfreithiol ar gyfer casglu data personol cleifion

Mae'r NVR wedi cael cymeradwyaeth i brosesu gwybodaeth gofal iechyd o dan Adran 251 (cyfeirnod: CAG 5-07 (f) / 2013) ar gyfer cleifion a dderbynnir mewn argyfwng sydd angen triniaethau fasgwlaidd yng Nghymru a Lloegr. Mae rhagor o wybodaeth ar adran 251 ar gael yma: <http://www.hra.nhs.uk/about-the-hra/our-committees/section-251/what-is-section-251/>.

Mae'n rhaid cael caniatâd pob claf yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, a chleifion yng Nghymru a Lloegr sy'n cael triniaeth ddewisol i gasglu a phrosesu eu gwybodaeth bersonol adnabyddadwy.

### **Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol cleifion**

Mae'r NVR yn prosesu data o dan erthyglau 6 (1) (e) a 9 (2) (i) o'r GDPR gan fod angen y data i gyflawni tasg er budd y cyhoedd er mwyn sicrhau safonau ansawdd uchel a diogelwch gofal iechyd.

### **Sut rydyn ni'n gwarchod eich data cleifion**

Mae timau clinigol lleol yn mewnbynnu data cleifion i system ddiogel ar y we a ddarperir gan Northgate Public Services. Dim ond meddygon, nyrsys a staff archwilio clinigol sydd wedi'u cofrestru gyda'r Archwiliad all gael mynediad at y system casglu data. Mae diogelwch a chyfrinachedd yn cael ei gynnal trwy ddefnyddio cyfrineiriau a phroses gofrestru sy'n benodol i berson. Dim ond tîm y prosiect NVR all gael mynediad at y system casglu data.

### **Cyfrinachedd cleifion a lefel y data a gesglir**

Mae'r wybodaeth i gleifion a dderbynnir ac a reolir gan y tîm NVR yn cael ei thrin yn gyfrinachol. Rydym yn dadansoddi'r data i gynhyrchu'r wybodaeth am ofal a chanlyniadau cleifion, mae'r tîm NVR yn defnyddio data heb ei nodi ac felly nid oes modd adnabod cleifion unigol.

Mae'r archwiliad hefyd yn ofalus wrth gyhoeddi gwybodaeth i gynnwys graffiau neu dablau nad ydynt yn adnabod unigolion. Er mwyn sicrhau hyn, mae'r Archwiliad yn dilyn canllawiau ar gyhoeddi ystadegau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol – [Adolygiad o Ledaenu Ystadegau Iechyd: Canllawiau ar Gyfrinachedd](#).

### **Rheoli data cleifion gan y tîm NVR**

Mae'r tîm NVR wedi'i leoli yng Ngholeg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr (RCS). Mae'r RCS yn cydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â chasglu a defnyddio data cleifion. Mae gan yr RCS fesurau diogelwch llym ar waith i ddiogelu gwybodaeth cleifion a gedwir yn y system Casglu Data ac wrth ddadansoddi'r setiau data heb eu nodi. Mae gan y system TG Casglu Data lefelau amrywiol o ddiogelwch wedi'i hymgorffori ynddo, megis diogelwch cyfrinair ID, sy'n atal defnyddwyr diawdurdod rhag cael mynediad ac amgryptio data.

Bydd y setiau data dad-ddynodedig hyn yn cael eu dal gan y tîm NVR cyhyd â'u bod yn parhau i fod yn ddeiliad contract y Gofrestr Fasgwlaidd Genedlaethol - hyd at 31ain Rhagfyr 2022 ar hyn o bryd. Bydd HQIP yn adolygu pa mor hir y mae angen storio'r data pan fydd yr archwiliad wedi gorffen.

### **Gyda phwy ydyn ni'n rhannu data?**

Mae'r NVR yn rhannu data ar lefel cleifion yn unig gan ddilyn gweithdrefn lywodraethu lem i sicrhau cydymffurfiaid â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Mae'r NVR wedi'i gysylltu â System TG rhaglen sgrinio AAA yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Gan fod Northgate yn cynnal yr NVR a'r Rhaglenni Sgrinio hyn, mae dynodwyr cleifion yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel rhwng y ddwy system. Gwneir hyn bob dydd yn oriau mân y bore. Os canfyddir bod gan ddyn AAA trwy'r rhaglenni sgrinio hyn, ei fod yn cael ei atgyfeirio i gael llawdriniaeth, a'i fod wedi rhoi caniatâd i'w ddata gael ei ddefnyddio, yna rhennir rhif y GIG gyda'r NVR. Unwaith y bydd cofnod y claf yn cael ei greu a'i gyflwyno ar yr NVR, rhennir manylion y llawdriniaeth yn ôl yn awtomatig i gofnod y dyn ar system TG y rhaglen sgrinio.

Gall ymchwilywyr wneud cais i Reolwr Data NVR (HQIP) os ydyn nhw am ddefnyddio data cleifion sydd wedi'i ddad-nodi at ddibenion eilaidd, fel archwiliad clinigol, gwerthuso gwasanaeth, neu astudiaethau ymchwil. Mae'r ceisiadau hyn yn mynd trwy broses gymeradwyo llym fel yr amlinellir ar wefan [HQIP](#).

### **Beth os nad wyf am i'r Archwiliad ddefnyddio fy ngwybodaeth?**

Os nad ydych am i'ch gwybodaeth bersonol adnabyddadwy gael ei defnyddio yn yr Archwiliad, dywedwch wrth y bobl sy'n eich trin. Byddant yn sicrhau na ddefnyddir y wybodaeth hon yn yr archwiliad.

Eich hawliau penodol yw:

- Cewch weld yr wybodaeth sydd gennym amdanoch chi, a chadarnhewch pa ddata rydyn ni'n ei brosesu amdanoch chi.
- Byddwch yn gwybod am y ffordd y caiff eich data personol ei gasglu a'i ddefnyddio.
- Galwch ofyn i ni gywiro unrhyw ddata personol anghywir, sydd wedi dyddio neu anghyflawn.
- Gallwch ofyn i ni ddileu'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi. Gelwir hyn hefyd yn 'hawl i gael eich anghofio'. Nid yw'r hawl yn absoliwt a dim ond mewn rhai amgylchiadau y mae'n berthnasol.
- Gallwch ofyn i ni ddefnyddio llai o'ch data personol neu gyfyngu arno.
- Gallwch ofyn i ni am gopi o'ch gwybodaeth a lle bo hynny'n bosibl byddwn yn ei darparu i chi mewn fformat y gall peiriant ei ddarllen fel ffeil .CSV os dymunwch. Byddwn yn gwneud hyn yn rhad ac am ddim a byddem yn cynnwys dim ond y wybodaeth rydych chi wedi'i darparu'n uniongyrchol i ni.
- Gallwch ofyn i ni beidio â phrosesu eich gwybodaeth.
- Eich hawliau i wrthod gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Os ydych chi'n rhoi caniatâd ac yna'n newid eich meddwl, anfonwch e-bost at [nvr@rcseng.ac.uk](mailto:nvr@rcseng.ac.uk) a rhowch "Cais i optio allan" yn y llinell pwnc. Ar ôl derbyn eich e-bost, byddwn yn tynnu eich manylion personol oddi ar system TG NVR. Fel arall, dywedwch wrth aelod o'ch tîm gofal lleol eich bod am optio allan. Yna byddant yn sicrhau bod eich manylion personol yn cael eu tynnu oddi ar y Gofrestr.

Gallwch hefyd optio allan o'r NVR gan ddefnyddio'ch data personol i'w gysylltu â ffynonellau data eraill, megis HES, trwy gofrestru'ch dewis yn y polisi [Optio Allan o Ddata Cenedlaethol](#), a reolir gan NHS Digital.

### **Data a gasglwyd ar gyfer rhestr bostio cylchlythyr NVR**

Os ydych chi'n cofrestru ar gyfer ein cylchlythyr neu os oes gennych gyfrif ar gyfer system TG NVR, yna mae gennym eich enw, cyfeiriad e-bost, cod GMC (os yw'n berthnasol) a'ch man gwaith. Ein sail gyfreithiol ar gyfer casglu a phrosesu'r wybodaeth hon amdanoch chi yw Diddordeb Cyfreithlon.

Bydd y wybodaeth gyswllt rydych wedi'i darparu yn cael ei thrin yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw bwrpas arall, oni bai eich bod wedi rhoi caniatâd iddi gael ei defnyddio am reswm arall. Dim ond cyhyd ag y dymunwch inni wneud y byddwn

yn prosesu'r wybodaeth hon. Bydd eich data personol yn cael ei gadw am gyfnod amhenodol nes y byddwch yn ein hysbysu nad ydych am i ni gadw eich manylion mwyach.

Os credwch fod unrhyw wybodaeth yr ydym yn ei chadw amdanoch sy'n anghywir neu'n anghyflawn, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl. Byddwn yn cywiro unrhyw wybodaeth y canfyddir ei bod yn anghywir ar unwaith.

### **Newidiadau i'n polisi preifatrwydd**

Rydym yn adolygu ein polisi preifatrwydd yn rheolaidd a byddwn bob amser yn cynnwys y fersiwn ddiweddaraf ar y dudalen we hon.

Diweddarwyd y polisi preifatrwydd ddiwethaf ar 22/06/2020

### **Sut i gysylltu â ni**

Cofiwch [gysylltu â ni](#) os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am ein polisi preifatrwydd neu am yr wybodaeth sydd gennym amdanoch.

Mae gan Goleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr swyddog diogelu data a all eich helpu gydag unrhyw ymholiadau am yr wybodaeth yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn: [dpo@rcseng.ac.uk](mailto:dpo@rcseng.ac.uk)

Mae gan HQIP swyddog diogelu data hefyd a gellir cysylltu â nhw trwy e-bost: [data.protection@hqip.org.uk](mailto:data.protection@hqip.org.uk)

Gellir dod o hyd i wybodaeth am y gofynion i'r Archwiliad gadw data personol yn ddiogel a beth i'w wneud i riportio torri data, ar wefan Swyddfa'r Comisiynwyr Gwybodaeth: <https://ico.org.uk>